


21 Rhagfyr 2017

Annwyl Riant,

**<u>Diwedd Tymor</u>**: Dyma hi wedi dod yn ddiwedd tymor unwaith eto, ac mae'n anodd meddwl ble mae'r holl ddyddiau wedi hedfan! Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i chi gyd am eich cefnogaeth parod yn ystod y tymor. Cofiwch os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu gyda'r ysgol ar unrhyw adeg – mae'r drws bob amser ar agor.

Er gwybodaeth, mae rhieni'r ysgol wedi casglu £1956.60 tuag at gronfa'r ysgol ers mis Medi. Diolch o galon i chi gyd am eich cefnogaeh, a'ch parodrwydd i gefnogi'r ysgol - rydym yn gwerthfawrogi'r cyfan. Byddwn yn defnyddio'r arian i ychwanegu ac ad-newyddu cyfrifiaduron yr ysgol fel bod yr holl blant yn gallu gwneud defnydd ohonynt.

Dyma'r manylion:

**<u>Ffair Aeaf:</u>** Diolch yn fawr i rieni blwyddyn 6 am drefnu'r Ffair Aeaf, ac i'r rhai ohonoch a ddaeth i gefnogi. Cawson noson gartrefol braf a casglwyd swm o £1246.60 .

**<u>Cyngerdd Nadolig</u>**: Rwy'n sicr eich bod i gyd yn cytuno bod y plant wedi perfformio'n wych yn y cyngerdd fore a nos Iau. Diolch iddynt i gyd am eu gwaith caled a'u parodrwydd i gymryd rhan, a diolch i'r athrawon am yr holl baratoi a hyfforddi. Casglwyd £274 .

**<u>Stondin Gacennau:</u>** Hoffwn ddiolch i'r rhieni a gyfrannodd ac a gynorthwyodd gyda'r stondin gacennau fis Hydref. Casglwyd £194 tuag at gronfa'r ysgol.

**<u>Dyfalu Pris y Troli:</u>** Casglwyd £242.29 tuag at gronfa'r ysgol. Llongyfarchiadau i Mrs Julie Edwards am ddyfalu'r pris i'r geiniog!

**<u>Plant Mewn Angen</u>**: Casglwyd £63 tuag at yr achos.

**<u>Glan-llyn (Plant Blwyddyn 3 a 4):</u>** Tybed a fyddai'r rhai ohonoch sydd heb dalu ar gyfer yr ymweliad â Glan-llyn yn gyrru'r arian i'r ysgol cyn gynted a bo modd yn Ionawr os gwelwch yn dda.

**<u>Casglu Arian:</u>** Dyma'r prisiau am y tymor:
Ffrwythau - £9.60 (Tybed oes posib i chi dalu am y tymor os gwelwch y dda)
Nofio - £20.00 (Blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 yn unig)
**Gallwch dalu drwy 'SchoolGateway' o'r 1.1.18 ymlaen.**

**Bydd yr ysgol yn ail agor i'r plant ar ddydd Mawrth 9.1.18**

Nadolig Llawen iawn i chi gyd,

Bethan Emyr Jones
Pennaeth




21 December 2017

Dear Parent,

**<u>End of Term</u>**: Haven't the days flown by! It's hard to believe that it's the end of the first term! I would like to take this opportunity to thank everyone for their support throughout the term. If you have any questions or further enquiries on any matter, you are welcome to contact the school at any time – the door is always open.

For your information, the school's parents have collected £1956.60 towards the school funds since September. Thank you all for your support, and your willingness to support the school - we appreciate it all. We will use the money to add and renew school computers so that all children can use them. Here are the details:

**<u>Winter Fair:</u>** Thank you to year 6 parents for organizing the Winter Fair, and for those of you who came to support. The evening had a lovely homely atmosphere, and a sum of £1246.60 was collected.

**<u>Christmas Concert:</u>** I'm sure you all agree that the children performed brilliantly in the concert on Thursday. I thank them all for their hard work and willingness to take part, and thank the teachers for all the preparation and training. A sum of £274 was collected at the door.

**<u>Cake Stall:</u>** I would like to thank the parents who contributed and helped with the cake stall in October. £194 was collected towards the school funds.

**<u>Co-op Food Trolley:</u>** £242.29 was collected towards the school funds. Congratulations to Mrs Julie Edwards who guessed the correct price to the penny!
**<u>Children in Need:</u>** £ 63 was raised towards the cause.

**<u>Glan-llyn:</u>** (Years 3 and 4 only) If you haven't already paid for the Glan-llyn visit, could you please do so as soon as possible in the new year.

**<u>Money Collections:</u>** The prices are as follows:
Fruit - £ 9.60 (Could you please pay for the whole term)
Swimming - £20.00 (Years 3, 4, 5 and 6 only)
**You can pay on 'School Gateway' from 1.1.18**

**The new term will begin on Tuesday 9.1.18**

I wish you all a merry Christmas,

Bethan Emyr Jones
Head Teacher